

Cwestiynau Cyffredin

Sut caiff eich pensiwn CPLIL ei gyfrif

Gweminar



PENSIWN

15 - 19 Medi 2025

Cwestiynau a Ofynnir

Os yw nifer eich diwrnodau yn lleihau o 5 diwrnod yr wythnos i 3, bydd hyn yn achosi i'ch tâl blynyddol leihau. Gan fod pensiwn yn seiliedig ar gyflog terfynol, ydi hyn yn golygu bod eich pensiwn yn lleihau?	3
Sut mae ymddeoliad cynnar (cyn 65 neu cyn 67) yn effeithio ar gyfrifo eich pensiwn a'ch cyfandaliad?	3
Ymunais ym mis Awst, ond dim ond hyd at fis Mawrth mae fy natganiad pensiwn yn ei ddangos, a gaiff y gwahaniaeth ei gyfrifo pan fydda i'n gadael?	4
Beth yw'r rheol 85 mlynedd?.....	5
Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol	6

Os yw nifer eich diwrnodau yn lleihau o 5 diwrnod yr wythnos i 3, bydd hyn yn achosi i'ch tâl blynyddol leihau. Gan fod pensiwn yn seiliedig ar gyflog terfynol, ydi hyn yn golygu bod eich pensiwn yn lleihau?

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (ECGA) bellach, sy'n golygu eich bod yn cronni pensiwn sydd gyfwerth ag 1 rhan o 49 o'ch cyflog pensiynadwy bob blwyddyn, a gaiff ei ychwanegu at eich cyfrif pensiwn. Yna caiff eich buddion pensiwn eu hail-werthuso bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chostau byw.

Felly, pe baech chi'n lleihau nifer eich diwrnodau gwaith i 3 diwrnod yr wythnos, byddai eich cyflog pensiynadwy yn lleihau, a fyddai'n golygu y byddai'r pensiwn fyddwch chi'n ei gronni yn lleihau hefyd.

Os wnaethoch chi ymuno â'r CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, rydych yn aelod o'r cynllun cyflog terfynol. Caiff eich buddion cyflog terfynol eu cyfrifo'n wahanol.

Ar gyfer aelodaeth a gasglwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, fe gewch chi bensiwn gwerth 1 rhan o 60 o'ch **cyflog terfynol** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Ar gyfer aelodaeth a gasglwyd cyn 1 Ebrill 2008, fe gewch chi bensiwn gwerth 1 rhan o 80 o'ch cyflog terfynol yn ogystal â chyfandaliad awtomatig gwerth teirgwaith cymaint â'ch pensiwn.

Mae eich ffigur cyflog terfynol yn ffigur cyfwerth â llawn amser, felly, ni fyddai lleihau eich oriau yn cael unrhyw effaith ar eich buddion cyflog terfynol.

Fel arfer, eich cyflog terfynol yw eich cyflog pensiynadwy yn y flwyddyn y byddwch chi'n gadael y Cynllun. Gellir defnyddio tâl o un o'r ddwy flynedd flaenorol os yw'n uwch.

Ewch i wefan CPLIL i weld enghraifft o gyfrif pensiwn (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg): **Sut y cyfrifir eich pensiwn: CPLIL**

Sut mae ymddeoliad cynnar (cyn 65 neu cyn 67) yn effeithio ar gyfrifo eich pensiwn a'ch cyfandaliad?

Os dewiswch gymryd eich buddion pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol, byddant fel arfer yn lleihau. I gychwyn, caiff eich buddion eu cyfrifo fel arfer yna eu lleihau. Mae'r lleihad yn seiliedig ar y cyfnod rhwng y dyddiad y caiff eich buddion eu talu a'ch oedran ymddeol arferol. Y cynharaf y byddwch chi'n cymryd eich pensiwn, y mwyaf y bydd y lleihad:

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Y Nifer o Flynyddoedd a Gaiff eu Talu'n Gynnar	Gostyngiad i'r Pensiwn Blynnyddol	Gostyngiad i'r Cyfandaliad Awtomatig
0	0%	0%
1	4.9%	1.7%
2	9.3%	3.3%
3	13.5%	4.9%
4	17.4%	6.5%
5	20.9%	8.1%
6	24.3%	9.6%
7	27.4%	11.1%
8	30.3%	12.6%
9	33.0%	14.1%
10	35.6%	15.5%
11	39.5%	Ddim yn berthnasol
12	41.8%	Ddim yn berthnasol
13	43.9%	Ddim yn berthnasol

Mae'r lleihad presennol ar gyfer cymryd eich buddion hyd at 13 mlynedd yn gynnar wedi'u dangos yn y tabl uchod. Os nad yw nifer y blynnyddoedd yn union, caiff y lleihad ei addasu.

Mae dewis i bob aelod ildio rhywfaint o'u pensiwn blynnyddol i gael cyfandaliad di-dreth wrth ymddeol. Am bob £1 o pensiwn blynnyddol rydych chi'n ei ildio, fe gewch chi gyfandaliad o £12. Ni all y swm y byddwch chi'n ei ildio fod yn fwy na 25% o gyfanswm gwerth cyfalaf eich buddion. Byddwn ni'n dweud wrthyich chi faint o gyfandaliad allwch chi ei gael pan fydd hi'n amser eich buddion.

Ymunais ym mis Awst, ond dim ond hyd at fis Mawrth mae fy natganiad pensiwn yn ei ddangos, a gaiff y gwahaniaeth ei gyfrifo pan fydda i'n gadael?

Cipolwg ar eich buddion ar 31 Mawrth y flwyddyn honno yw eich datganiad buddion blynnyddol. Pan fyddwch chi'n gadael neu'n ymddeol, caiff eich buddion eu cyfrifo a byddwch yn cael dyfynbris ar sail eich oedran a'ch gwasanaeth. Os hoffech ddyfynbris ar gyfer eich

pensiwn, gallwch gyfrifo eich dyfynbris buddion eich hunain ar eich cyfrif Hunanwasanaeth i Aelodau (HWA).

Beth yw'r rheol 85 mlynedd?

Dim ond os oeddech yn talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL cyn 1 Hydref 2006 y byddwch yn gymwys ar gyfer Rheol 85. Rydych yn bodloni Rheol 85 os yw:

- Eich oedran pan fyddwch chi'n cymryd eich buddion CPLIL + Nifer y blynnyddoedd yr ydych wedi talu cyfraniadau pensiwn i mewn i'r CPLIL = 85 neu fwy

Os ydych chi'n bodloni Rheol 85, fe'i gweithredir yn awtomatig os byddwch yn dechrau cymryd eich pensiwn yn 60 oed.

Os ydych chi'n bodloni Rheol 85 ac yn dymuno cymryd eich pensiwn cyn i chi droi'n 60 oed, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd eich cyflogwr er mwyn gweithredu'r rheol. Os nad yw eich cyflogwr yn rhoi caniatâd, gallwch barhau i gymryd eich pensiwn, ond fe fydd yn is na'r swm y byddech wedi'i dderbyn pe bai'r Rheol 85 wedi'i gweithredu.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol

Gwefan aelodau CPLIL Cenedlaethol 	www.lgpsmember.org Cyfrifianellau, fideos, cwestiynau cyffredin, gwybodaeth gyffredinol am y cynllun (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)
 Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund	cronfabensiynauclwyd.org.uk pensiynau@siryfflint.gov.uk
 Oxfordshire Pension Fund www.oxfordshire.gov.uk/pensions	www.oxfordshire.gov.uk/business/oxfordshire-pension-fund Pension.services@oxfordshire.gov.uk
 Shropshire County Pension Fund	www.shropshirecountypensionfund.co.uk pensions@shropshire.gov.uk